**COFNODION CYFARFOD**
**FFORWM DERBYNIADAU SIR BENFRO**
**A GYNHALIWYD YN OMD1, NEUADD Y SIR, HWLFFORDD**
**AR DDYDD MERCHER 21 TACHWEDD 2018 AM 8:30am**

**PRESENNOL:** Y Cyng. David Lloyd (is-gadeirydd)
Yr Hybarch Paul Mackness
Y Parchedig H Cale
Mrs Kate Evan-Hughes
Y Cyng. JT Davies
Mr Paul Edwards
Mrs Susan Roberts
Miss Teleri Williams

**HEFYD YN GWEINI:** Mr Huw Jones (Ysgrifennydd y Fforwm)
Mrs Mary David (Clerc Cofnodion)
Mr Hubert Mathias (Cludiant)
Mr Matthew Johns (Cludiant)

GWEITHREDU

## 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth: Y Cynghorydd A Tudor, Y Canon B Witt, Mrs D Davies, Mr P Harris, Mr P Williams

## 2. Aelodaeth y Fforwm Derbyniadau

Dywedodd Mr Huw Jones fod un lle gwag i Riant-lywodraethwr yn aelod.

**Penderfynwyd:**
Ailbenodwyd yr Hybarch Paul Mackness fel cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru hyd at 1af Hydref 2022.
Ailbenodwyd Miss Teleri Williams fel Aelod / Swyddog Cyngor Sir Penfro hyd at 1af Medi 2022.

## 3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Tynnwyd sylw at un camgymeriad; dylai'r Canon P Mackness fod yn Hybarch P Mackness bellach.

Derbyniwyd a llofnodwyd Cofnodion cyfarfod Fforwm Derbyniadau Sir Benfro a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2018 fel cofnod cywir.

## 4. Materion sy'n codi

Eitem 7: cadarnhaodd y swyddog derbyniadau mai dyddiadau'r cyfnod profi statudol ar gyfer 2019 fyddai 29/04/19 – 14/05/19 ac na fyddai unrhyw ddisgyblion yn cael eu trosglwyddo yn ystod y cyfnod hwn.

## 5. Drafft Adroddiad Blynyddol y Fforwm Derbyniadau

Roedd Adroddiad Blynyddol 2016/17 y Fforwm Derbyniadau yn y papurau ar gyfer y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo'r adroddiad a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 30ain Tachwedd yn ôl y rheoliadau.

GWEITHREDU

## 6. Y diweddaraf ar drosglwyddiadau uwchradd ar gyfer mis Medi 2018

Rhoddodd y Swyddog Derbyniadau adroddiad llafar i egluro'r adroddiad Trosglwyddiadau Ysgolion Uwchradd ar gyfer Medi 2018, a dilynodd trafodaeth ar y broses drosglwyddo. Holodd y Cynghorydd Davies ynghylch y trefniadau pontio ar gyfer Ysgol Hafan y Môr ac Ysgol Gynradd Arberth (uned Gymraeg), yn dilyn sefydlu Ysgol Caer Elen (YCE). Eglurodd HJ mai penderfyniad y Cyngor ym mis Gorffennaf 2016 oedd y gallai disgyblion o'r ddwy ysgol gynradd fynychu naill ai YCE neu Ysgol y Preseli (YYP) gyda chludiant am gyfnod o bum mlynedd. Derbyniwyd bod hyn yn achosi rhai anawsterau cludiant ysgol, dim yn fwy na bod y trefniant yn gost ychwanegol. Derbyniodd y Cynghorydd Davies y rhesymau dros gyfnod pontio o'r fath a'r angen i gydbwyso anghenion y ddwy ysgol uwchradd, ond teimlai fod pum mlynedd yn rhy hir cyn gwneud adolygiad. Cytunwyd y dylid adolygu hyn bob blwyddyn ac nid ar ôl 5 mlynedd fel y penderfynwyd o'r blaen.

HJ

Gofynnodd y swyddogion cludiant a ddylai plentyn ym mlwyddyn 6 yn mynychu un o ysgolion cyflenwi Caer Elen, ond yn byw yn nalgylch y Preseli, fod â hawl i fynychu Caer Elen. Atebodd y Swyddog Derbyniadau bod gan rieni hawl i wneud cais i unrhyw ysgol, ond mai'r adran gludiant fyddai'n gwneud penderfyniadau cludiant.

Dywedodd y Cynghorydd Lloyd bod Ysgol Penrhyn Dewi bron yn llawn, a bod datblygiad tai newydd yn yr arfaeth yn agos iawn at yr ysgol. Roedd y Cynghorydd Lloyd yn ymwybodol bod y datblygiad newydd yn yr ysgol yn caniatáu ar gyfer ymestyn dosbarthiadau yn y dyfodol a bod mater hirsefydlog mewn cysylltiad â chyfraniadau mantais trwy gynllunio wedi cael ei benderfynu'n ddiweddar. O ystyried ei statws fel ysgol Wirfoddol Gymorthedig a'r trefniadau cyllido cyfalaf ar gyfer ysgolion o'r fath, gofynnodd y Cynghorydd Lloyd i'r Hybarch Mackness a fyddai'n codi'r mater gydag Esgobaeth Tyddewi.

PM

Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr P Edwards, cadarnhaodd HJ nad yw'r niferoedd yn yr adroddiad yn cynnwys lleoedd LRC/Uned.

## 7. Adroddiad ar apeliadau derbyn

Rhoddodd HJ adroddiad llafar ar apeliadau derbyn a glywyd ers y cyfarfodydd blaenorol. Eglurodd y clywyd 17 apêl, 12 ohonynt wedi'u cadarnhau, 3 heb eu cadarnhau a 2 wedi'u tynnu'n ôl. Roedd yr ysgolion dan sylw fel a ganlyn:

- x1 Tredeml / x10 Fenton / x2 Prendergast / x1 Gelliswick / x2 HHVC / x1 Llandyfái

29

Dywedodd Mr Jones bod pedair apêl arall i'w clywed ym mis Rhagfyr.

Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Is-gadeirydd, eglurodd y Cyfarwyddwr y drefn a'r broses benderfynu ar gyfer apelio. Eglurodd HJ mai Adran y Gyfraith oedd yn denu a hyfforddi aelodau'r panel ac mai HJ a TW oedd yn paratoi achos yr awdurdod, gyda HJ yn cyflwyno'r achos mewn gwrandawiadau unigol.

GWEITHREDU

## 8. Materion Cludiant Ysgol

Croesawodd yr Is-gadeirydd Hubert Mathias a Matthew Morgan i gyfarfod y Fforwm a'u gwahodd i rannu unrhyw faterion cysylltiedig â derbyniadau yr hoffent gael eu trafod. Dywedodd y swyddogion cludiant bod penderfynu apeliadau'n gallu lleihau costau cludiant, h.y. pan fydd disgyblion yn mynd i'w hysgol leol. Dywedodd HJ y bydd ef a TW yn ystyried y goblygiadau cludiant wrth benderfynu, pan ddaw llythyrau apelio oddi wrth rieni.

Eglurodd TW na fyddwn mwyach yn gofyn i rieni am resymau dros symud (nid yw'n rhan o'r meini prawf derbyn) ond, unwaith y caiff rhesymau eu rhoi, os daw amgylchiadau lliniarol i'r amlwg ar adeg yr apêl, fe ymgynghorir â'r cyfarwyddwr cyn penderfynu mynd i apêl ffurfiol.

Gofynnodd y swyddogion cludiant bod geiriad y llythyrau cynnig i rieni'n cael ei eglurhau o ran hawl i gludiant. TW a Chludiant i drafod.

**TW a Chludiant**

Holwyd a fyddai modd derbyn disgyblion o ysgolion cynradd Catholig i Ysgol Penrhyn Dewi. Dywedodd yr Hybarch Mackness y byddai ond cynghorwyd bod derbyniadau'n dibynnu ar y polisi / meini prawf derbyniadau a gyhoeddwyd gan Ysgol Penrhyn Dewi. Eglurodd TW y gall rhieni wneud cais i unrhyw ysgol.

Dywedwyd wrth aelodau'r Fforwm nad oedd ysgolion cyflenwi'n rhan o'r hawl i gludiant, dim ond ysgolion y dalgylch ac ysgolion crefyddol hyd at 8 milltir.

Gofynnwyd i swyddogion a oedd prisiau tanwydd cynyddol wedi effeithio ar eu cyllideb. Dywedwyd bod prisiau lonawr – Rhagfyr eisoes yn y fformiwla a gytunwyd. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr bod y £3 miliwn o arbediadau a neilltuwyd i'r adran gludiant wedi cael ei symud o ddrafft y gyllideb oherwydd bod cludiant ysgol yn elfen statudol.

Mae cludiant ar gyfer myfyrwyr ôl-16 ar agenda Seminar yr Aelodau mis nesaf. Nid yw cludiant ôl-16 yn statudol.

Hysbyswyd mai Sir Benfro yw'r fwyaf effeithlon yng Nghymru o ran cost cludo disgyblion Cynradd, Uwchradd ac ADY fesul disgybl.

Dymunai'r Cynghorydd Lloyd gofnodi diolch y Fforwm i Gludiant am eu hymdrechion rhagorol pan adleolwyd Ysgol Dewi Sant i Tasker Milward.

DD

GWEITHREDU

## 9. Hysbysiad Prosesu Teg – RhDDC 2018

Roedd copi o'r Hysbysiad Prosesu Teg – (Derbyn Plant i Ysgolion) yn y pecyn er gwybodaeth. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

## 10. Awgrymiadau ar eitemau'r dyfodol

Ni wnaed unrhyw awgrymiadau yn y cyfarfod ond cynghorodd HJ yr aelodau i gysylltu â'r swyddog derbyniadau os dymunant ychwanegu rhai yn y dyfodol.

## 11. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Byddai cyfarfod nesaf y Fforwm yn cael ei gynnal yn Hwlffordd ar ddydd Iau 13eg Mehefin 2019 am 8.30am.

Gofynnwyd bod car mannau parcio'n cael eu cadw.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10am.

Llofnodwyd fel cofnod cywir D. Davies
Cadeirydd y Fforwm Derbyniadau

Dyddiad 21.11.2018